OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1403 (Cy.140) (C.48)

TRAFNIDIAETH

Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006

Wedi'i wneud - - 24 Mai 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 12 a 13 o Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trafnidiaeth (Cymru) 2006 (Cychwyn) 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006.

Y diwrnod penodedig

2.—(1) Daw darpariaethau'r Ddeddf a bennir ym mharagraff (2) isod i rym ar 26 Mai 2006.

(2) Mae'r darpariaethau fel a ganlyn–

(a) Adran 1 (dyletswydd drafnidiaeth gyffredinol)

(b) Adran 2 (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru)

(c) Adran 3 a'r Atodlen (cynlluniau trafnidiaeth lleol)

(ch) Adran 4 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau trafnidiaeth)

(d) Adran 5 (cyd-awdurdodau trafnidiaeth)

(dd) Adran 6 (cymorth ariannol: swyddogaethau trafnidiaeth lleol)

(e) Adran 7 (darparu gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus i deithwyr)

(f) Adran 8 (Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru)

(ff) Adran 9 (swyddogaethau'r Pwyllgor)

(g) Adran 10 (canllawiau a chyfarwyddiadau i'r Pwyllgor)

(ng) Adran 11 (cymorth ariannol: gwasanaethau trafnidiaeth awyr)

(**1**) 2006 p.5

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

D. Elis-Thomas
24 Mai 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38